

Dyddiad: 28 Chwefror 2001

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl: **Adroddiad Misol y Gweinidog Dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

1. MATERION STRATEGOL:

- 1.1 "Gwella Iechyd yng Nghymru" - Cynllun Gweithredu
- 1.2 Telefeddygaeth
- 1.3 Datblygu Strategaeth ar gyfer yr Henoed yng Nghymru

2. GWELLA IECHYD A THRECHU ANGHYDRADDOLDEBAU

- 2.1 Atal Clefyd Coronaidd y Galon
- 2.2 Cynllun Gweithredu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Clefyd y Siwgr
- 2.3 Rhestrau Aros
- 2.4 Pwysau Argyfwng y Gaeaf
- 2.5 Cronfa Anghydraddoldebau Iechyd

3. RHEOLI AC ARCHWILIO ANSAWDD

- 3.1 Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd: Arolygiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol 1999-2000.
- 3.2 Gwybodaeth am Reoli Perfformiad: Yr Her i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
- 3.3 Cyngor Gofal Cymru
- 3.4 Cadw Samplau o Organau a Meinweoedd ar ôl Post-mortemau
- 3.5 Adroddiad y Comisiwn Gwella Iechyd ar Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin

4. GWASANAETHAU PLANT:

- 4.1 Comisiynydd Plant
- 4.2 Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru: gwella'r dewis o leoliadau a sefydlogrwydd

5. GOFAL CYMDEITHASOL

- 5.1 Deddf Iechyd 1999 "Hyblygrwydd i Gydweithio"
- 5.2 Strategaeth ar gyfer Cynhalwyr yng Nghymru - Cynllun Gweithredu
- 5.3 Adsefydlu pobl sydd wedi treulio cyfnodau hir mewn Ysbytai i'r rheini ag Anabledd Dysgu

6. Y SECTOR GWIRFODDOL

- 6.1 Swyddfa Cofnodion Troseddol

7. ADNODDAU DYNOL

- 7.1 Recriwtio a Chadw Staff
- 7.2 Cynlluniau sy'n ymwneud â Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd

8. CYLLID

- 8.1 Y Sefyllfa Ariannol
- 8.2 Trosglwyddo Adnoddau

1. MATERION STRATEGOL

1.1 "Gwella Iechyd yng Nghymru" - Cynllun Gweithredu

Mae fframwaith gweithredu wedi'i lunio ac mae copi ohono wedi'i anfon at bawb a fu ynghlwm wrth y Cynllun. Ymhlith pethau eraill, mae'n cynnig sefydlu Grwp Llywio o dan fy nghadeiryddiaeth i, i gadw golwg ar y prosiect, Grwp Gweithredu o dan gadeiryddiaeth Ann Lloyd (Cyfarwyddwr NHS Cymru) i reoli'r broses weithredu a chyfres o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i gynnig argymhellion ar gyfer rhoi manylion y Cynllun ar waith. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn sefydlu'r Grwpiau hyn ac rydym yn gofyn i gyrff perthnasol enwebu aelodau iddynt.

1.2 Telefeddygaeth

Mae'r trefniadau'n mynd rhagddynt ar gyfer cyfarfod y pwyllgor a fydd yn trafod Telefeddygaeth ar 28 Mawrth. Mae Swyddogion Arwain y Pleidiau ar faterion Iechyd wedi ystyried amlinelliad drafft o'r sesiwn.

Caiff Cylchlythyr Iechyd ei anfon yn y man at yr NHS yng Nghymru yn gwahodd eu cynigion ar gyfer menter Datblygu Telefeddygaeth Cymru Gyfan. Mae cyrff yr NHS eisoes wedi gwneud llawer iawn o waith eisoes o ran cychwyn trafod a pharatoi'r ceisiadau.

I fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen, mae Cyfarwyddiaeth yr NHS wedi penodi dau reolwr prosiect, ill dau yn meddu ar brofiad perthnasol helaeth. Bydd y ddau'n dechrau yn eu swyddi ddechrau mis Mawrth 2001. Bydd y swydd gyntaf yn canolbwyntio ar ddatblygu Strategaeth Telefeddygaeth a Thele-ofal Cymru Gyfan, gan glustnodi'r prif feysydd y bydd gofyn eu datblygu dros y tair blynedd nesaf gan gynnwys cydweithio ag asiantaethau gofal cymdeithasol. Bydd y llall yn datblygu prosiect y rhwydwaith fideogynadleda a'r prosiect maes mewn telefeddygaeth. Bydd y ddau'n cydweithio'n agos â'r tîm Arloesi mewn Gofal.

1.3 Datblygu Strategaeth ar gyfer yr Henoed yng Nghymru

Yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgor am roi'r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir ar waith yng Nghymru, cyhoeddais y byddem yn datblygu Strategaeth ar gyfer yr Henoed ar y cyd gyda'n holl bartneriaid dros y 12 mis diwethaf. Bydd yn ymgorffori'r ymrwymïadau a wnaed gan y Cynulliad i'r Henoed y mae angen gofal iechyd a chymdeithasol tymor hir arnynt gan ystyried hefyd effeithiau polisïau eraill y Cynulliad ar yr henoed.

Rwyf wedi gofyn i Brian Gibbons gadeirio Grwp Llywio i fynd â'r Strategaeth yn ei blaen. Caiff manylion y cyrff sydd wedi'u gwahodd i enwebu cynrychiolwyr ar y Grwp Llywio a chrynodeb o gynllun prosiect y strategaeth eu cyflwyno i'r Pwyllgor heddiw (28 Chwefror). Bwriadwn fod mor gymhwysol â phosib wrth gasglu tystiolaeth, gan gynnwys yn hynny o beth sesiynau ym mhob Pwyllgor Rhanbarth, cynhadledd Cymru gyfan, grwpiau ffocws o'r henoed ledled Cymru (trwy Gyngor yr Henoed Cymru) ac ymgynghoriad ysgrifenedig. Yr amcan fydd cwblhau'r Strategaeth erbyn dechrau 2002, i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei ystyried yng Ngwanwyn 2002 a'i chyhoeddi gyda golwg ar gwblhau'r broses ymgynghori erbyn Haf 2002. Cylch gwaith drafft y Strategaeth yw ffurfio strategaeth ar gyfer iechyd a lles yr Henoed yng Nghymru a fydd yn ymateb i'w hanghenion, yn darparu gwasanaethau mewn ffordd amserol a phriodol ac yn hybu'u hannibyniaeth pa bryd bynnag fo hynny'n bosibl.

2. GWELLA IECHYD A THRECHU ANGHYDRADDOLDEBAU

2.1 Atal Clefyd Coronaidd y Galon

Ar 16 Chwefror, lansiâs "Calon Lân", Ymgyrch Atal Clefydau'r Galon Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r ymgyrch yn adlewyrchu'r hyn a argymhellwyd yn Safon 1 Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon ac mae'n dda iawn gennyf weld bod y gwaith hwn yn mynd yn ei flaen a hynny cyn cyhoeddi fersiwn derfynol y Cynllun.

2.2 Cynllun Gweithredu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Clefyd y Siwgr

Rydym yn cydweithio'n agos â'r rheini sy'n datblygu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Lloegr ac rwy'n rhagweld y byddwn yn mabwysiadu'r un safonau neu rai tebyg yng Nghymru. At hynny, rydym wedi bod yn gweithio hefyd gyda phroffesiynolion perthnasol a Diabetes UK Cymru i

sefydlu Grwp Gweithredu. Y grwp hwn fydd yn gyfrifol am lunio cynlluniau i ledaenu canfyddiadau'r Fframwaith ledled Cymru. Cynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ar 25 Ionawr, gyda chynrychiolwyr y proffesiynolion iechyd perthnasol, Diabetes UK Cymru a nifer o gynrychiolwyr lleyg yn bresennol. Yn ein barn ni, mae gan y cynrychiolwyr lleyg ran arbennig o bwysig i'w chwarae yn hyn o beth gan fod hunan-reolaeth ac yn aml, hunan-driniaeth yn rhan mor bwysig o'r regime gofalu.

2.3 Rhestrau Aros

Cyhoeddwyd rhestrau aros mis Ionawr heddiw (28 Chwefror). Byddaf yn cyflwyno manylion y sefyllfa ddiweddaraf nes ymlaen.

2.4 Pwysau Argyfwng y Gaeaf

Rwy'n parhau i ymweld â chyrrff iechyd a gofal cymdeithasol. Rwyf newydd agor cynllun 'ail-abledd' yn Ysbyty Maesteg sy'n fenter ar y cyd rhwng Ymddiriedolaeth Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae Adroddiadau Sefyllfa Dyddiol yn cael eu paratoi bellach ar gyfer pob safle ysbyty aciwt yn hytrach na fesul ymddiriedolaeth. Mae hynny'n ein helpu i gael hyd i broblemau'n gynt. Er hynny, rydym yn dal i ofyn i ymddiriedolaethau am adroddiadau wythnosol. Mae'r wybodaeth ddyddiol ac wythnosol hon yn cael ei bwydo yn ôl i NHS Cymru ar Cymruweb a chyhoeddir y wybodaeth hefyd ar Wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ers y Flwyddyn Newydd, mae ysbytau Cymru wedi parhau'n agored.

2.5 Cronfa Anghydraddoldebau Iechyd

Cyhoeddwyd gwybodaeth ar 9 Chwefror am y cymorth y mae'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd yn galli'i gynnig mewn Cylchlythyr Iechyd Cymreig (WHC 2001 06). Dosbarthwyd y Cylchlythyr i gyrff a grwpiau yn yr NHS, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol sy'n cael gofyn i'r Gronfa am gymorth. Bydd y Gronfa'n helpu prosiectau newydd sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd neu ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys anghydraddoldebau o ran gallu cael at wasanaethau. Blaenoriaeth y Gronfa yn ei blwyddyn gyntaf yw clefyd coronaidd y galon a Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd y Galon. Roeddwn am osgoi trefn ymgeisio fanwl a beichus a fyddai'n golygu gwastraffu amser yn prosesu ceisiadau aflwyddiannus. Felly, fel y cam cyntaf ar gyfer ymgeisio am nawdd y Gronfa, y cyfan y bydd gofyn ei wneud fydd datgan diddordeb a chynnig amlinelliad syml o'r prosiect. Y dyddiad cau yw 6 Ebrill 2001.

Mae £3 miliwn wedi'i neilltuo i helpu prosiectau yn 2001-02. Bydd hyn yn codi i £5 miliwn yn 2002-03 a £6 miliwn yn 2003-04. Fodd bynnag, wrth lansio *Gwella Iechyd yng Nghymru: Cynllun ar gyfer yr NHS gyda'i bartneriaid*, roedd yn bleser imi cael cyhoeddi £1 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol i'r Gronfa. Defnyddir yr arian i drechu'r anghydraddoldebau sy'n bod mewn iechyd geneuol. Bydd yn

caniatau inni ehangu cynllun y fenter ddeintyddol a rhaglen selydd holltau yn nannedd plant mewn ardaloedd lle ceir llawer o bydredd dannedd. Caiff yr elfen hon o'r Gronfa ei defnyddio wedi inni drafod â chynrychiolwyr y proffesiwn deintyddol yng Nghymru.

3. RHEOLI AC ARCHWILIO ANSAWDD

3.1 Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd: Arolygiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol 1999-2000.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn hynt llwyddiant y Cynulliad i roi ar waith agenda o newidiadau mewn gofal cymdeithasol ac esbonio hefyd y sialensau, y tueddiadau a'r sefyllfa ariannol o fewn y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn disgrifio'r cynlluniau ar gyfer sefydlu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, a Chyngor Gofal Cymru, y'u cynhwyswyd yn Neddf Safonau Gofal 2000. Mae'n crynhoi canlyniadau arolygiadau a chydadolygiadau Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac yn clustnodi'r pwyntiau rheoli efallai y dylai awdurdodau fod yn ymwybodol ohonynt wrth fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r agenda moderneiddio llywodraeth leol yn eu cynnig. Mae'r adroddiad yn ymdrin ag agenda eang o waith datblygu gan gynnwys cychwyn y system Plant sy'n Derbyn Gofal a pholisïau neu fentrau newydd megis Cychwyn Cadarn, gwaith Cyfiawnder yr Ifainc ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Mae'n nodi hefyd y camau y bydd angen eu cymryd i roi argymhellion Tribiwnlys Gogledd Cymru "Ar Goll mewn Gofal" ar waith.

Bydd yr adroddiad ei hun, ynghyd â'r Rhaglenni Arolygu a Datblygu yn destunau trafod yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2001.

3.2 Gwybodaeth am Reoli Perfformiad: Yr Her i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

Roedd y Papur Gwyn "Adeiladu'r Dyfodol" yn nodi'r angen am ddatblygu ffyrdd gwell o reoli perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Comisiynwyd y Nuffield Institute for Health i gloriannu gallu Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth reoli at ddiben datblygu cynllun rheoli perfformiad ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws Cymru ac mae'n dda gennyf gyflwyno'u crynodeb a'u prif ganfyddiadau.

Mae uwch-swyddog awdurdod lleol wedi'i secondio i Arolygiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol i arwain y gwaith o roi argymhellion yr adroddiad ar waith. Mae'r gwaith, a wnaed mewn cydweithrediad clos ag awdurdodau lleol, wedi arwain at:

- lunio fframwaith ar gyfer rheoli perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol;
- clustnodi a diffinio set o ddangosyddion sylfaenol sydd yn awr yn cael eu hymgorffori o fewn setiau dangosyddion perfformiad Gwerth Gorau a Chytundebau Polisi;

- cyn hyr, sefydlu rhaglen hyfforddi a datblygu Cymru gyfan ar gyfer uwch-reolwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ogystal, mae cynllun cynnal yn cael ei ddatblygu i helpu awdurdodau lleol i foderneiddio a gwella'u systemau gwybodaeth reoli; bydd hynny yn ei dro yn ei gwneud yn bosib datblygu dangosyddion perfformiad gwell yn y dyfodol a gwella ansawdd y wybodaeth a'r data a ddefnyddir ar bob lefel o reolaeth o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwyf hefyd newydd adrodd ar y canllawiau cynllunio newydd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n pwysleisio'r angen am ymgorffori rheoli perfformiad o fewn systemau rheoli'r gwasanaethau cymdeithasol.

3.3 Cyngor Gofal Cymru

Mae'r Papur Gwyn ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru *"Adeiladu'r Dyfodol"* yn disgrifio rhaglen waith ar gyfer codi safonau'r gweithlu gofal cymdeithasol. Yr amcan yw sicrhau bod gan Gymru weithlu gofal cymdeithasol sydd wedi'i hyfforddi'n briodol, sydd â chymwysterau addas ac sy'n cael ei reoleiddio'n effeithiol. Yr un pryd, mae'r Papur Gwyn yn awgrymu y dylai'r gweithlu allu disgwyl y gynhaliaeth a'r gydnabyddiaeth briodol. Y prif gynnig yw creu corff statudol newydd o'r enw Cyngor Gofal Cymru i reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol a chodi safonau hyfforddiant. Corff cyhoeddus wedi'i noddi gan y Cynulliad fydd y corff newydd hwn.

Bydd gan y cyngor newydd dair swyddogaeth

- bydd yn rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol trwy lunio côd ymddygiad ac ymarfer ar gyfer gweithwyr a chyflogwyr, a thrwy gofrestru'r gweithwyr unigol sy'n aelodau o'r gweithlu;
- bydd yn cymryd yr awenau am gyfrifoldebau CCETSW am reoleiddio hyfforddiant ymgymhwyso ac ôl-gymhwyso yn y gwasanaethau cymdeithasol, ac am weinyddu'r cynllun bwrseriaeth i fyfyrwyr ôl-radd mewn gwaith cymdeithasol;
- bydd yn cyflawni swyddogaethau'r National Training Organisation for the Personal Social Services (TOPSS) yng Nghymru, gan gynnwys datblygu Strategaeth Hyfforddi Genedlaethol mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru fel yr addawyd yn y Papur Gwyn.

Caiff y Cyngor ei sefydlu trwy ddarpariaethau Rhan IV Deddf Safonau Gofal 2000, a dderbyniodd Gydsyniad y Frenhines ar 20 Gorffennaf. Y Cynulliad fydd yn penderfynu ar union gwmpas a threfniadau'r Cyngor. Gwneir hynny trwy is-ddeddfwriaeth a thrwy Reolau'r Cyngor ar gyfer cymeradwyo rhaglenni hyfforddi a chofrestru'r gweithlu, y bydd yn rhaid iddynt oll gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad.

Bydd y Cyngor yn wahanol iawn i gorff rheoleiddio traddodiadol sy'n cael ei redeg yn bennaf gan y proffesiwn ei hun. Bydd gan yr holl fuddiannau lais a bydd defnyddwyr, cynhalwyr a'r cyhoedd yn

fwyafrif ynddo. Aelod lleyg fydd yn cadeirio'r Cyngor, a bydd gweddill yr aelodau'n cynrychioli cyflogwyr o bob sector, cymdeithasau proffesiynol ac undebau llafur, a darparwyr addysg a hyfforddiant.

Hysbysebodd y Cynulliad am gadeirydd i'r Cyngor fis Chwefror a chwilir am aelodau ym mis Ebrill. Mae Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefnau) yn destun ymgynghori ar hyn o bryd (daw'r ymgynghori i ben ar 12 Mawrth 2001). Cewch weld y rheoliadau hyn ar wefan y Cynulliad. Rydym wrthi'n trafod penodi Prif Weithredwr gyda'r Is-adran Rheoli Personel.

3.4 Cadw Samplau o Organau a Meinweoedd ar ôl Post-mortemau

O ganlyniad i bryderon y cyhoedd ynghylch cynnal post-mortemau ar eu perthnasau, rwyf wedi trefnu bod yr NHS Direct yng Nghymru yn darparu llinell gymorth i'r rheini sydd am fwy o wybodaeth gyffredinol a bod canllawiau yn cael eu rhoi i ymddiriedolaethau ysbytai yng Nghymru ar sut i ddelio'n sensitif ac agored gyda cheisiadau gan berthnasau gofidus am wybodaeth fanwl. Mae swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol wedi bod yn trafod gyda'r NHS i sicrhau bod y canllawiau hyn yn cwrdd ag anghenion rhieni a pherthnasau ar adegau o ofid mawr iddynt hwy ac i staff yr NHS sy'n delio â'u hymholiadau.

Rwy'n croesawu ac yn cefnogi newidiadau'r Llywodraeth i'r ddeddf, fel y'u cyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn ei ddatganiad i Dy'r Cyffredin. Rwyf hefyd yn cefnogi ffurfio Comisiwn i gynghori'r NHS yn Lloegr ar gatalogio, storio a dychwelyd unrhyw ddeunydd dynol a gedwir ac ers hynny, rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd i ofyn bod y Comisiwn yn cynghori'r NHS yng Nghymru hefyd.

Ein hamcan nawr yw rhoi gwybodaeth gywir a chyflawn cyn gynted â phosib i'r perthnasau sydd wedi gwneud ymholiadau am amgylchiadau'u perthnasau. Fodd bynnag, un o ddarganfyddiadau ymchwiliad Redfern oedd methiant yr Ymddiriedolaeth yn Alder Hay i gadw cofnodion dibynadwy a chyflawn a bod y methiant hwnnw wedi dwysau'r straen yr oedd y rhieni yr effeithiwyd arnynt eisoes yn ei ddioddef. Nid wyf i na'r Llywodraeth am weld sefyllfa o'r fath yn codi eto ac am y rheswm hwnnw, rydym wedi gosod moratoriwm dros dro ar ryddhau gwybodaeth i'r perthnasau sydd wedi gwneud ymholiadau nawr. Gwnaed hynny ar gais y Llywodraeth er mwyn rhoi amser i Ymddiriedolaethau archwilio nid eu cofnodion PM eu hunain yn unig ond hefyd i gael gwybodaeth gan y rheini sy'n cadw casgliadau o samplau o organau a meinweoedd y gellid fod wedi anfon deunydd dynol atynt ar ôl cynnal post-mortemau at ddibeion diagnostig, dysgu, addysgu neu ymchwil.

Gan fod gennym ni gymaint lai o ysbytai yng Nghymru a chan fod swm y deunydd dynol a gadwyd hefyd yn llai, rwyf wedi cytuno â'r Comisiwn y gallwn ni yng Nghymru fwrw ymlaen â'r mater yn gynt. Gan weithio gyda'm swyddogion, mae'r NHS yn sefydlu nifer o dimau adolygu i gysylltu â phob Ymddiriedolaeth i sicrhau bod eu cofnodion mor gyflawn ag y gallant fod a bod pob Ymddiriedolaeth yn gwneud yr holl ymholiadau angenrheidiol iddynt allu rhoi atebion mor gyflawn â phosib i ymholiadau am berthnasau. Rwy'n rhagweld y bydd y broses hon wedi'i chwblhau yn y mis nesaf ac y byddaf felly yn gallu caniatu i Ymddiriedolaethau rhyddhau gwybodaeth yn fuan wedi hynny.

Wrth ddelio â'r amgylchiadau anodd hyn, rhaid inni ofalu nad ydym yn tanseilio dilysrwydd yr angen am gadw organau a meinweoedd ar ôl post-mortemau. Fe'u defnyddir i gadarnhau achos marwolaethau ac at ddibenion dysgu, addysg, archwilio neu ymchwil, ac ar brydiau, am resymau cyfreithiol. Fodd bynnag, mae gofyn inni sicrhau, yng ngoleuni Alder Hay, ein bod yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr anghenion hyn a'r angen i'r NHS fod mor agored a gonest i rieni a'u perthnasau â phosib er mwyn iddynt allu rhoi caniatâd ar sail gwybodaeth gadarn.

3.5 Adroddiad y Comisiwn Gwella Iechyd ar Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin

Cyhoeddodd y Comisiwn Gwella Iechyd ei adroddiad ar ei ymchwiliad i Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin ar 15 Tachwedd, a chafodd ei drafod gan y Pwyllgor wythnos yn ddiweddarach. Ers hynny, rwyf wedi cyfarfod â Phrif Weithredwyr yr Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Dyfed Powys a'r Comisiwn i drafod problemau sydd heb eu datrys o'r cynllun gweithredu. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi mynd i'r afael â'r rhain ac, ar ôl ymgynghori gyda'r CGI, rwyf wedi arwyddo'r cynllun gweithredu.

4. GWASANAETHAU PLANT

4.1 Comisiynydd Plant

Bydd Peter Clarke, Cyfarwydd Childline Cymru, yn dechrau ar ei swydd fel Comisiynydd ar 1 Mawrth.

Derbyniodd Mesur Comisiynydd Plant Cymru, a fydd yn ehangu cwrdd pŵerau'r swydd, ei Drydydd Darlleniad yn Nhy'r Cyffredin ar 8 Chwefror ac mae yn awr yn mynd yn ei flaen i Dy'r Arglwyddi.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Reoliadau'r Cynulliad i gychwyn a hysbysu prif swyddogaethau a phwerau'r Comisiynydd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Bwriedir cynnal ymgynghoriadau allanol arnynt ym mis Mawrth.

4.2 Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru: gwella'r dewis o leoliadau a sefydlogrwydd

Rwyf wedi cymeradwyo sefydlu Tasglu i ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer lleoli plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Pwrpas fframwaith o'r fath fyddai ehangu'r dewis o leoliadau, eu gwneud yn fwy sefydlog ac addas a hybu cydraddoldeb. Bydd y Tasglu yn dod ag awdurdodau lleol, asiantaethau statudol eraill, darparwyr gwirfoddol a phreifat, ymchwilwyr a chyrf hyfforddi ynghyd.

Creu fframwaith o'r fath oedd un o brif argymhellion Adroddiad y Tim Archwilio ar Weithdrefnau ac Arfer Gofal Plant yng Ngogledd Cymru a gadeiriwyd gan Ms Adrienne Jones. Gwnaeth Syr Ronald Waterhouse argymhelliad tebyg yn Adroddiad Tribiwnlys Camdrin Plant Gogledd Cymru. Mae'n dda iawn gennyf allu cyhoeddi bod Ms Adrienne Jones wedi cytuno i gadeirio'r Tasglu. Rwy'n disgwyl i'r Tasglu gyhoeddi ei adroddiad fis Hydref eleni.

5. Gofal Cymdeithasol

5.1 Deddf Iechyd 1999 "Hyblygrwydd i Gydweithio"

Cyhoeddwyd crynodeb o drafodaethau a chasgliadau'r Gynhadledd Hyblygrwydd i Gydweithio, a gynhaliwyd yn Llandrindod ar 29 Tachwedd, ar y Rhyngwyd ym mis Chwefror.

Mae Swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn datblygu rhaglen ymchwil er mwyn monitro a gwerthuso'r cydweithio rhwng yr NHS a'r awdurdodau lleol, a hyblygrwydd y berthynas hon.

5.2 Strategaeth ar gyfer Cynhalwyr yng Nghymru - Cynllun Gweithredu

Rwy'n falch o gael cyhoeddi bod panel arolygu wedi ei sefydlu i fonitro, adolygu a gwerthuso'r Strategaeth ar gyfer Cynhalwyr yng Nghymru - Cynllun Gweithredu. Mae'r cam hwn yn gwireddu un o ymrwymïadau'r cynllun gweithredu. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grwp hwn ar 16 Chwefror 2001, a bydd ei gasgliadau'n cael eu cyflwyno i'r Cynulliad yn fuan, a chânt eu cynnwys yn niweddariad nesaf y Strategaeth.

5.3 Adsefydlu pobl sydd wedi treulio cyfnodau hir mewn Ysbytai i'r rheini ag Anableddau Dysgu

Roeddwn yn falch o fedru cyhoeddi ddiwedd Ionawr sut y bwriadwn ddefnyddio'r £25 miliwn ychwanegol a roddwyd gan y Cynulliad i gyllido'n rhaglenni i adsefydlu'r rheini ag anableddau dysgu. Mae £17 miliwn yn cael i wario ar gam olaf y broses o adsefydlu cleifion Ysbyty Hensol. O ganlyniad, bydd rhaglen adsefydlu Hensol wedi ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2004, ac yna gellir cau'r ysbyty. Bydd £8 miliwn ar gael i baratoi cynllun adsefydlu cynhwysfawr ar gyfer Ysbyty Bryn y Neuadd a chychwyn y broses adsefydlu o ddifrif. Ymwelais â'r Tîm Prosiect yn Ysbyty Bryn y Neuadd ar 16 Chwefror.

Mae'r Cynulliad eisoes wedi addo tua £60 miliwn dros y tair blynedd nesaf er mwyn talu am raglenni adsefydlu, ac mae'r £25 miliwn yn ychwanegol at hyn.

6. Y SECTOR GWIRFODDOL

6.1 Swyddfa Cofnodion Troseddol

Ar 7 Chwefror, wedi i mi a chyrrff gwirfoddol yng Nghymru gyflwyno'n sylwadau i'r Ysgrifennydd Cartref, cyhoeddodd y Llywodraeth y dylai'r Swyddfa Cofnodion Troseddol archwilio cofnodion troseddol yn rhad ac am ddim i wirfoddolwyr.

7. ADNODDAU DYNOL

7.1 Recriwtio a Chadw Staff

Rwy'n benderfynol o lenwi'r bylchau yn staff yr NHS drwy gynyddu'r nifer sy'n derbyn hyfforddiant a gwella amodau gwaith fel bod yr NHS yng Nghymru'n denu staff. Mae recriwtio a chadw nyrsys a bydragedd yn rhan o'r strategaeth gyffredinol i wella recriwtio a chadw staff yn yr NHS yng Nghymru.

Y Tîm Recriwtio a Chadw Staff

Rwyf wedi sefydlu Tîm Recriwtio a Chadw Staff yr NHS yng Nghymru. Mae tri o staff Is-adran Adnoddau Dynol yr NHS yn aelodau o'r Tîm ac eleni mae ganddynt gyllideb o £175,000 i dalu am gyrsiau i annog nyrsys i ddychwelyd i'r proffesiwn a £175,000 arall i dalu am gynlluniau cyffredinol i Recriwtio a Chadw Staff.

Data am Swyddi Gweigion

Mae fy swyddogion wedi creu system casglu data er mwyn cael gwybodaeth am swyddi sy'n wag am gyfnodau hir yn holl grwpiau staff yr NHS. Mae'r set cyntaf o ddata'n cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd a bydd hyn yn fan cychwyn inni wrth osod targedau i lenwi swyddi yn yr NHS yng Nghymru.

Gwybodaeth am Yrfaoedd

Comisiynwyd taflenni gwybodaeth ynghylch gyrfaedd yn yr NHS yng Nghymru er mwyn ceisio denu pobl i weithio i'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys fersiynau Cymraeg a Saesneg o daflenni gyrfaedd cyffredinol yr NHS ac fe'u dosberthir i holl ysgolion uwchradd a cholegau Cymru. Yn ogystal â hyn, mae gwybodaeth am gyflogwyr penodol a gyrfaedd yn yr NHS yng Nghymru yn cael ei chyhoeddi, ac fe'i dosberthir mewn sefydliadau hyfforddi Gofal Iechyd, ffeiriau swyddi a chynadleddau gyrfaedd yng Nghymru a thros y ffin.

Gweithio gyda'r Adran Iechyd

Mae fy Swyddogion yn cryfhau eu perthynas ag Is-adran Gyflogaeth yr Adran Iechyd yn Llundain er mwyn sicrhau bod Cymru'n elwa ar gynlluniau cenedlaethol. Ymysg y datblygiadau hyn, mae defnyddio gwybodaeth a Gwefan Gwasanaeth Gyrfaedd yr NHS, defnyddio dulliau recriwtio electronig a sefydlu asiantaeth staffio'r NHS.

Gweithio mewn Partneriaeth

Rwyf yn cadeirio Fforwm Partneriaeth yr NHS ddwywaith y flwyddyn, ac mae wedi sefydlu nifer o Is-grwpiau, gan gynnwys Is-grwp Recriwtio a Chadw Staff sydd yn gwneud gwaith da. Mae'r Fforwm hefyd yn sefydlu Tîm Cynllunio i weld a fyddai modd trefnu diwrnod agored ar gyfer holl sefydliadau'r NHS yng Nghymru.

Cydweithio â'r NHS yng Nghymru er mwyn gwella'r gweithle

Rwy'n benderfynol o wneud yr NHS yng Nghymru yn gyflogwr gwell. Bydd targedau'n cael eu gosod i gyflogwyr ym maes polisiau sy'n cynorthwyo staff, patrymau gweithio hyblyg, cyfathrebu mewnol, cydraddoldeb, gwella amodau a chyfleusterau yn y gweithle, amodau swyddi, cyfleoedd am ddyrchafiad a thelerau ymddeol, sydd i gyd yn bwysig wrth geisio cadw staff. Bydd effeithlonrwydd y cynlluniau hyn yn cael eu monitro. Hoffwn weld arferion da yn ogystal â pholisiau. Cyhoeddir cyfeirlyfr o'r cynlluniau i wneud swyddi'n fwy hyblyg yn yr NHS yng Nghymru er mwyn sicrhau bod arferion gorau'n cael eu rhannu drwy'r gwasanaeth. Yn ogystal â hyn, mae Coleg Staff yr NHS ac Adran Bersonél yr NHS wedi comisiynu Rhaglen Dymor Hir i Ddatblygu Staff er mwyn cynorthwyo'r staff i gyflawni'r amcanion hyn.

Ymgynghorwyr Therapi

Mae Gweithgor, dan arweiniad fy swyddogion, yn cael ei sefydlu er mwyn creu strategaeth i ddatblygu rôl Ymgynghorwyr Therapi oddi mewn i'r NHS yng Nghymru. Bydd y grwp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaeth iechyd a'r proffesiynau ac yn gweithio â chyd-weithwyr yn Lloegr er mwyn creu cyfleoedd newydd yn y proffesiynau therapi. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo'r ymdrech i recriwtio a chadw staff.

Ymchwil i faterion sy'n ymwneud â Recriwtio a Chadw Staff

Bydd Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru'n cyllido prosiect ymchwil ar faterion sy'n ymwneud â Recriwtio a Chadw staff. Mae fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn pennu'r maes ymchwil mwyaf addas.

7.2 Cynlluniau sy'n ymwneud â Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd

Yn y gorffennol, rydym wedi bod yn hyfforddi tua 1,134 o nyrsys bob blwyddyn. Ers 2000, rydym wedi bod yn hyfforddi o leiaf 1,325 o nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd bob blwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o 16.8% o'i gymharu ag 1999. Mae'r cyllid a gyhoeddwyd gan y Canghellor fis Mawrth diwethaf wedi caniatáu comisiynu 190 o leoedd hyfforddi newydd i nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd. Bydd yr un cynnydd yn digwydd bob blwyddyn tan 2004, ac erbyn hynny bydd 760 o nyrsys ychwanegol wedi'u hyfforddi yng Nghymru.

Dychwelyd i'r Proffesiwn

Rwyf wedi pwysleisio pwysigrwydd helpu nyrsys nad ydynt wedi gweithio yn y proffesiwn ers peth amser i ddychwelyd i weithio i'r NHS. Eleni, rwyf wedi ariannu 160 o leoedd ar gyrsiau Dychwelyd i'r Proffesiwn i nyrsys a bydwragedd ledled Cymru. Rwyf hefyd wedi sefydlu llinell gymorth i'r rheini sydd eisiau dychwelyd i weithio i'r NHS. Rhoddir yr wybodaeth am y rheini sy'n ffonio i'r cyflogwyr.

Recriwtio Dramor

Er mwyn datrys y problemau recriwtio sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn cydweithio â chyflogwyr oddi mewn i'r NHS yng Nghymru er mwyn meithrin system foesegol a chydlyn o recriwtio sy'n sicrhau bod cyflogwyr yn medru cyflogi staff cymwys o wledydd tramor.

Llwybrau newydd i fyd nyrsio

Yn olaf, rydym yn datblygu llwybrau newydd i fyd nyrsio drwy roi cymorth ariannol i weithwyr gofal iechyd sy'n dilyn cyrsiau i ddarparu nyrsys cyn eu cofrestru. Mae mwy na 60 o Weithwyr Gofal Iechyd wedi manteisio ar y cynllun hwn yn ystod y tair blynedd diwethaf.

8. CYLLID

8.1 Y Sefyllfa Ariannol

ARIAN PAROD - Y newid yn sefyllfa'r Is-grwpiau Gwariant Iechyd o ran arian parod

Mae'r rhagolygon o ran tanwario arian parod yn yr Is-grwpiau Gwariant Iechyd wedi cynyddu o £14 miliwn i £24.7 miliwn ers yr adroddiad misol diwethaf - oherwydd llithriant (£10 miliwn) yn y rhaglenni cyfalaf.

Bydd angen cario unrhyw gyllid nad yw'n cael ei wario ar raglenni cyfalaf ymlaen i dalu am ymrwymadau'r rhaglen hon.

Mae adolygiad o danwariannau yn y cyllidebau canolog, sy'n cael ei gynnal er mwyn dangos pa arian fyddai angen ei ail-ddarparu yn y dyfodol, wedi dangos bod cyfanswm o £9miliwn, o'i gyfuno â'r arian nad yw wedi ei ymrwymo o Gylch Cynllunio'r Gyllideb, ar gael i'w fuddsoddi yn y gwaith o weithredu *Gwella Iechyd yng Nghymru*.

SEFYLLFA ARIANNOL (GWARGED/DIFFYG) YR NHS

Bellach, mae'r rhagolygon yn dangos gwarged ariannol o tua £14.4 miliwn, ond mae cryn ansicrwydd ynghylch y sefyllfa derfynol.

Y prif reswm am y gwarged yw bod datblygiadau newydd yn y sectorau gofal sylfaenol a gofal aciwt yn cychwyn yn hwyrach na'r disgwyl. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r awdurdodau iechyd perthnasol wedi dweud y bydd gwarged eleni'n cael ei wario'r flwyddyn nesaf er mwyn rhoi cyllid cychwynnol i'r mentrau newydd.

Y prif ffactorau sy'n creu ansicrwydd ynghylch y sefyllfa ariannol yw:

- Diffyg gwybodaeth am wariant ar gyffuriau gofal sylfaenol
- Costau gwirioneddol pwysau'r gaeaf
- Y sefyllfa derfynol o ran gweithredu'r datblygiadau newydd.

8.2 Trosglwyddo Adnoddau sy’n effeithio ar y Prif Grwp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Yn unol â Rheolau Sefydlog 19.6 ac 19.7 hoffwn hysbysu’r Pwyllgor fy mod i a’r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Thai wedi cytuno y bydd yr adnoddau a ganlyn yn cael eu trosglwyddo yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol (2000-2001).

BEL	Llinell Wariant yn y Gyllideb		
SEG	Is-grwp Gwariant		
MEG	Prif Grwp Gwariant		
Swm	Trosglwyddo o	Trosglwyddo i	Rheswm am y Trosglwyddiad
£100k	BEL Cynlluniau Cyffuriau ac Alcohol y SEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill Cyn y Trosglwyddiad £2.784m Ar ôl y Trosglwyddiad £2.684m	BEL Ymchwil/ Cyhoeddusrwydd/ Taliadau Amrywiol y SEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill Cyn y Trosglwyddiad £1.711m Ar ôl y Trosglwyddiad £1.811m	Mae’r trosglwyddiad hwn yn angenrheidiol er mwyn galluogi Uned Cyffuriau ac Alcohol Cymru i gynnal ymgyrch ailbrintio fawr i’w galluogi i anfon deunyddiau ataliol at nifer o wahanol awdurdodau ac asiantaethau.

£210k	<p>BEL Hyrwyddo Cyfle Cyfartal y SEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill</p> <p>Cyn y Trosglwyddiad: £210k</p> <p>Ar ôl y Trosglwyddiad: Dim</p>	<p>Y BEL Hyrwyddo Cyfle Cyfartal yn SEG Gwasanaethau'r Swyddfa Brisio ac ati y MEG Tai</p> <p>Cyn y Trosglwyddiad: Dim</p> <p>Ar ôl y Trosglwyddiad: £210k</p>	<p>Mae'r cyllid hwn yn ymwneud yn sylfaenol â grantiau ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal ac adeiladu ar argymhellion adroddiad MacPherson. Mae'r cyllid yn cael ei drosglwyddo er mwyn cyd-fynd â chyfrifoldebau'r Gweinidog yn y maes hwn. Bydd yn rhaid i'r trosglwyddiad hwn gael ei gymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn tua 13 Mawrth.</p>
£25k	<p>BEL Gweithredu'r Papur Gwyn y SEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill</p> <p>Cyn y Trosglwyddiad: £1.000m</p> <p>Ar ôl y Trosglwyddiad: £975k</p>	<p>BEL Grantiau Cynnal Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y SEG Plant</p> <p>Cyn y Trosglwyddiad: £4.642m</p> <p>Ar ôl y Trosglwyddiad: £4.667m</p>	<p>Angen am gyllid interim er mwyn cynnal y Grwp "Bite Back" yn ystod y cyfnod hyd at ddechrau'r trefniadau newydd yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd hyn yn sicrhau y gall y Grwp barhau i gynnal cyfarfodydd bob dau fis, parhau i gyflogi staff rhan-amser a thalu costau teithio a chostau gweinyddol.</p>
£15k	<p>BEL Rheoleiddio Safonau Gofal y SEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill</p> <p>Cyn y Trosglwyddiad: £301,000</p> <p>Ar ôl y Trosglwyddiad:</p>	<p>BEL Ymchwil / Cyhoeddusrwydd/ Taliadau Amrywiol y SEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill</p> <p>Cyn y Trosglwyddiad: £1.811m</p> <p>Ar ôl y Trosglwyddiad:</p>	<p>Rhoi cyllid i alluogi Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru i gael strategaeth gyfarthrebu, gan gynnwys cyhoeddi cylchlythyr.</p>

	£286K	£1.826m	
£50k	<p>BEL Rheoleiddio Safonau Gofal y SEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill</p> <p>Cyn y Trosglwyddiad:</p> <p>£286k</p> <p>Ar ôl y Trosglwyddiad:</p> <p>£236k</p>	<p>BEL Costau Staff y MEG Gweinyddiaeth Ganolog</p> <p>Cyn y Trosglwyddiad:</p> <p>£74.661m</p> <p>Ar ôl y Trosglwyddiad:</p> <p>£74.711m</p>	<p>Cyllido secondiadau o Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Iechyd er mwyn helpu gyda'r rhaglen weithredu.</p> <p>Bydd yn rhaid i'r trosglwyddiad hwn gael ei gymeradwyo mewn cyfarfod llawn tua 13 Mawrth.</p>
£1.346m	<p>BEL Cefnogi'r Sector Gwirfoddol/ Gwirfoddoli y SEG Cefnogi'r Sector Gwirfoddol</p> <p>Cyn y Trosglwyddiad:</p> <p>£4.516m</p> <p>Ar ôl y Trosglwyddiad:</p> <p>£3.170m</p>	<p>BEL Gwasanaethau Cymunedol i Oedolion y SEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill</p> <p>Cyn y Trosglwyddiad:</p> <p>£51.724m</p> <p>Ar ôl y Trosglwyddiad:</p> <p>£53.070m</p>	<p>Defnyddir y ddarpariaeth hon i roi grantiau Adran 64 i gyrff gwirfoddol yn y sectorau corfforol/ synhwyrdd, yr henoed a chynhalwyr. Bydd y trosglwyddiad yn gosod y grantiau hyn yn yr un Llinell Wariant â'r grantiau gofal cymdeithasol eraill sydd yn perthyn yn agos iddynt.</p>